**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**3 MAWRTH 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 3 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorwyr Ian Roberts a Haydn Bateman yn bresennol fel arsylwyr. Roedd Jonathan Duggan-Keen (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau) yn bresennol fel arsylwr

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Cyfreithiol

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem 6.3 (061530) y rhaglen, dywedodd y Cynghorydd Allport er nad oedd ganddo gysylltiad, fel Aelod lleol roedd wedi gwneud ei wrthwynebiadau i'r cais yn glir. Fel Aelod o'r Pwyllgor, byddai'n aros yn y cyfarfod ond ni fyddai'n siarad na phleidleisio ar yr eitem.

Ar yr un eitem, bu i'r Cynghorydd Richard Lloyd ddatgan cysylltiad personol gan ei fod wedi danfon glo i eiddo yn agos i'r safle.

Ar eitem 6.4 (061817) y rhaglen, dywedodd y Cynghorwyr Chris Bithell, Mike Peers ac Owen Thomas bod preswylwyr lleol wedi cysylltu â hwy fwy na thair gwaith, ond nid yr ymgeisydd.

## 21. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4856&LLL=0

## 22. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Gladys Healey eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

**23. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**24. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**25. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm, a gorffennodd am 3.35pm)

..............................

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 3 MAWRTH 2021**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061618 | Cyngor Tref Bwcle | Newid defnydd o hen fanc (A2) i ddatblygiad preswyl (C3) ac addasu adeilad i chwech o randai yn yr hen 'Lloyds TSB Bank Plc', 2 Mold Road, Bwcle. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Carol Ellis, i'r adroddiad yn y rhaglen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar y cais yn bod yn rhan o Rwymedigaeth Adran 106 neu daliad o flaen llaw o £733 fesul rhandy yn gyfnewid am ddarpariaeth man agored cyhoeddus ar safle, y cyfraniad oddi ar safle yn cael ei ddefnyddio i wella man agored cyhoeddus sy'n bodoli yn y gymuned, sef Ardal Chwarae Higher Common. Hefyd yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061454 | Cyngor Tref Shotton | Newid defnydd o ddosbarth C3 (Annedd Preswyl) i Dŷ o Amlfeddiannaeth yn 110 Chester Road East, Shotton | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr ymgeisydd i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Ron Davies, i'r adroddiad yn y rhaglen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061530 | Cyngor Cymuned Higher Kinnerton | 061530 – Datblygiad preswyl o 95 annedd (yn cynnwys tai fforddiadwy), mynedfa, man agored a'r holl waith cysylltiedig ar dir ger Higher Kinnerton Meadows, Kinerton Lane, Higher Kinnerton | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Mike Allport, i'r adroddiad yn y rhaglen. Ni wnaeth siarad na phleidleisio ar yr eitem.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061817 | Cyngor Tref Bwcle | To fflat ar estyniad yn y cefn i ddisodli to ar ongl a gymeradwywyd yn flaenorol yn 17 Overleigh Drive, Bwcle | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr ymgeisydd i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Carol Ellis, i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog, gydag amod ychwanegol i osod gwydr aneglur ar dair ffenestr ar ochr yr eiddo. |